

www.womansarchivewales.org

Lleisiau o Lawr y Ffatri

Bellach mae'r prif brosiect 'Lleisiau o Lawr y Ffatri' yn dirwyn i ben ac er y byddwn yn parhau i weithio ar y prosiectau ategol ychwanegol am rai misoedd eto dyma gyfle yn awr i ddiolch i bawb fu'n rhan o'r prosiect hynod lwyddiannus hwn

Mae'r diolch cyntaf i'n tair Swyddog Maes am eu gwaith clodwiw Yn y de-ddwyrain, oherwydd nifer y ffatrioedd yn y rhanbarth, cafodd Catrin Edwards y dasg enfawr o recordio 70 cyfweiliad a'u trawsysgrifio. Mae'n anhygoel cofnodi iddi gyflawni hynny o fewn blwyddyn. Llwyddodd Kate Sullivan (gogledd Cymru) a Susan Roberts (y de-orllewin) i recordio dros eu targedau hwy o gyfweiliadau, gan deithio ledled eu rhanbarthau – o Wrecsam i Amlwch i Garno yn y gogledd ac o Aberdaugleddau i Lanymddyfri i Dregaron yn y de-orllewin.. Rhoddodd pob un ohonynt o'u gorau i'r prosiect a bu'n fraint cydweithio â nhw. Diolch o galon iddynt.

Rhaid diolch hefyd i chi'r gwirfoddolwyr o blith aelodau'r Archif ac eraill fu'n cyfweld siaradwyr ar ein cyfer yn eich ardaloedd. Mae'n braf iawn deall i chi fwynhau'r profiad ac elwa ohono. Bu ambell un yn trawsysgrifio gan wneud cyfraniad gwerthfawr arall i'r prosiect. Ymhlith ein gwirfoddolwyr mwyaf triw yr oedd y Grŵp Rheoli Prosiect fu'n gefn i'r fenter o'r cychwyn. Cawsom law gadarn Gail Allen y Trysorydd yn llywio'r gwario, Avril Rolph yn cadw'r cofnodion a Jenny Sabine, Caroline Fairclough a Rosemary Scadden i gynnig cyngor doeth.

Ond rhaid talu'r diolch pennaf i'n 200+ o siaradwyr am roi o'u hamser i gofnodi'u profiadau mor hael. Cawsom hyd i amrywiaeth rhyfeddol o siaradwyr o dros 300 o ffatrioedd gwahanol ac roedd y cyfnod yn rhychwantu o adeg yr Ail Ryfel Byd tan yr 1980au. Roedd gan bob un ei stori ac roedd pob un yn ei hadrodd yn ddifyr tu hwnt. Mae'n hynod galonogol gwybod bod ein siaradwyr hwythau wedi mwynhau'r profiad. Mae'r ffurflenni gwerthuso yn frith o sylwadau fel y rhain: 'Diolch am y cyfle i roi atgofion ar gof a chadw', ac 'roedd y swyddog wedi llwyddo i wneud imi deimlo'n gartrefol'.

Bu'n prosiect hwn yn gyfle i ni fel Archif wneud cyfraniad sylweddol arall at gronfa ein ffynonellau hanes menywod yng Nghymru. Mae ein dyled yn fawr i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yr Ashley Family Foundation, Undebau Llafur Unite a Community Union a chyfraniadau aelodau am wneud hyn i gyd yn bosibl.

Catrin Stevens (Cydllynydd y Prosiect)



Cofebion Rhyfel: Ydych chi'n mynd i ymweld â Bae Colwyn?



Rydym yn dal i ychwanegu at ein cronfa ddata a'n casgliad o ddelweddau o enwau menywod a gofnodir ar gofebion y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mae gennym bellach dros ddeugain o bron bob rhan o Gymru, o Rydaman i Ystrad Mynach. Yn eu plith mae'r llun sydyn hwn a dynnodd Elin Jones o un o blaciau cofeb hardd Bae Colwyn. Byddem yn ddiolchgar i gael darlun llawn o'r plac, ac enw Nyrs Staff Catherine Williams Q.A.I.M.N.S a goffeir arno, ac o'r gofeb gyfan. Byddwn yn cydnabod pob llun. Anfonwch hwn neu unrhyw un arall y dewch ar ei draws at caroline.fairclough@yahoo.co.uk os gwelwch yn dda.

Rydym yn casglu enwau'r Ail Ryfel Byd hefyd, felly anfonwch nhw atom o.g.y.dd.

Taith Gerdded Hanes Menywod yn Abertawe ym mis Medi

Petaech wedi bod yn sefyll fan hyn y tu allan i orsaf y Stryd Fawr ar Wyl y Banc mis Awst 1917, byddech wedi gweld golygfa ryfeddol a dwys iawn. Ar y diwrnod hwnnw cyrhaeddodd trên yn teithio o ffatri bowdwr Pen-bre'r orsaf yn cludo coffinau dwy ferch leol a laddwyd mewn ffrwydrad yn y ffatri honno ...

Os edrychwch chi dros y wal i'r Strand, fe welwch chi'r ardal lle bu Jennie Ross yn gweithio fel Patrolwraig wirfoddol yn 1916. Ei rôl oedd 'hongian o gwmpas mewn modd pwrpasol' i rwystro puteindra a gwarchod merched ifanc rhag perygl moesol ..

Dyma sut roedd ein taith gerdded yn dechrau. Bu criw bychan ohonom yn arwain grwpiau o ffrindiau, teulu a dieithriaid o gwmpas canol Abertawe ar bedwar achlysur. Arweiniodd Catrin Stevens un o'r teithiau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y tair taith arall yn fwy o gyd-berfformiad, gyda phob un ohonom yn adrodd hanesion bywydau tua 20+ o fenywod yr oeddem wedi'u hymchwilio. Bu 49 o bobl yn gwrando arnom. Gobeithio y bydd rhai ohonynt wedi'u hysbrydoli gan ein bywgraffiadau byrrion i fynd ati i chwilio rhagor o hanes yr unigolion a'r grwpiau menywod rhyfeddol sydd wedi cyfrannu mor sylweddol ar fywyd dinas Abertawe dros gyfnod o 200 mlynedd.



Gail gydag Ann o Abertawe

Bu'r gwaith o drefnu a chyflwyno'r daith gerdded yn gryn her, a dysgwyd llawer o wersi o'r profiad. Disgleiriodd yr haul a mwynhaodd pob un ohonom y cyfle i gymryd rhan. Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol gan y mynychwyr. Mae sawl person a gollodd y cyfle i ymuno â ni'r tro cyntaf hwn wedi gofyn inni ailadrodd y fenter.

Mae'r llyfryn gwybodaeth a ddisbarthwyd i'r rhai ar y daith gerdded ar gael ar wefan Archif Menywod Cymru. <http://www.womensarchive.wales.org/2ndhome.html>

Gail Allen



Mynwent Eglwys Sant Mathew, Sant Ioan gynt. Bellach mae'n ganolfan i'r Cyreniaid. Roedd Betty Williams, un o'r tair menyw a goffhawyd yn y fynwent, yn un o sylfaenwyr y mudiad hwn. Y ddwy arall oedd Ann o Abertawe a Fanny Imlay.

Yr Athro Anne Borsay

Roedd Anne Borsay, un o aelodau'r Archif, yn Athro Gofal Iechyd a Dyniaethau Meddygol ym Mhrifysgol Abertawe ac yn un o arloeswyr hanes anabledd. Bu fawr ym mis Awst. Ysgrifennodd Anne yn helaeth ar hanes ysbytai a nyrsio, a'i chyfrol ddiffiniol oedd *Disability and Social Policy in Britain since 1750: A History of Exclusion* (2005), sydd wedi bod yn ganolog i astudiaethau anabledd ers ei chyhoeddi. Pan fu farw roedd Anne yn arwain prosiect pwysig: Anabledd a'r Gymdeithas Ddiwydiannol, wedi'i gyllido gan Ymddiriedolaeth Wellcome, ac a oedd yn ymchwilio i hanes anabledd ym meysydd glo Prydain. Bydd y rhai ohonoch a fynychodd gynhadledd 2013 AMC/WAW ym Merthyr yn cofio papur a roddwyd gan Alexandra Jones ar gynrychioliadau o anabledd mewn llenyddiaeth; mae Alexandra yn gwneud doethuriaeth yn rhan o'r prosiect hwn.

Mae marwolaeth Anne yn golled fawr i astudiaethau anabledd ac i hanes menywod. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i theulu a'i chydweithwyr.

'Menywod yn Weithwyr Tunplat - Cymry-America yn Dwyn Gwarth ar eu Cenedl.'

Hattie Williams: Gweithwraig tun o Gymru ym Mhensylfania.

Mae Hattie Williams yn reit adnabyddus. Caiff ei henwi ar wefannau'r Amgueddfa Genedlaethol a Chasgliad y Werin ac yn Wikipedia, ac mae papurau a chyhoeddiadau academiaidd gan yr Athro Bill Jones ac eraill amdani.¹ Daeth hi'n enwog yn sgil stori yn y wasg Americanaidd, a atgynhyrchwyd, gyda sylwadau, ym mhapurau newydd y *South Wales Daily Post* a'r *Cambrian*, y ddau ar Fai 3^{ydd}, 1895.

Yn 1891 cyflwynodd UDA dollau masnach ar nwyddau tramor yn dod i mewn i'r wlad. Cafodd hyn effaith difrifol ar ddiwydiant tunplat de Cymru a fu'n dominyddu'r byd. Oherwydd iddynt golli eu swyddi yn ne Cymru, allfudodd llawer o weithwyr tunplat i gwrrd â'r galw am weithwyr medrus yn UDA. Cyn pen dim ymunodd eu gwragedd, eu cariadon a'u mamau â nhw. Ymhlith y menywod hyn roedd Hattie Williams, gwraig gweithiwr tunplat. Daw ei hanes i'r fei, trwy bapur Cymraeg America, *Y Drych* a'r *Pittsburgh Gazette*, yn y *South Wales Daily Post* ar Fai 3^{ydd} 1895. Mae gan y gohebydd 'Vox Populi' ddiddordeb amlwg ond braidd yn feiriadol yn Hattie a'i hagwedd at waith, a chofnodir cyfweiliad maith â hi, gan ddadlennu'n anarferol, lais menyw o'r dosbarth gweithiol. Yn gyntaf nodi Vox Populi 'y gwarth' roedd rhai melinau wedi'i ddwyn arny'n nhw'u hunain trwy gyflogi menywod 'yn unol â'r ffasiwn o gwmpas Abertawe a chanolfannau tunplat eraill. Uchelgais pob busnes yn America yw codi uwch lefel Prydain Fawr ac Ewrop yn gyffredinol; ac mae gweithred y Cymraësau hyn yn gorfodi eu hunain ar weithfeydd tunplat Pittsburg yn gam difrifol tuag at ddiraddio'r busnes hwnnw i'r dyfnderoedd eithaf, a thlodi eu cartrefi eu hunain.'

Roedd gŵr Hattie Williams yn sâl, felly gofynnodd hi i fforman Cwmni Tunplat Monongahela am waith, gan gyfeirio at ei phrofiad yn ne Cymru:

'Bûm yn gweithio am ddeng mlynedd mewn melin dunplat yn Nhrelewis, ger Abertawe, de Cymru a gallaf wneud y gwaith ar roddwyd i mi. Es i at Mr Thomson, y fforman, bythefnos yn ôl, a gofyn iddo am swydd, a gwnaeth hynny. Doedd y dynion a oedd wrthi'n gweithio ddim yn gwneud y gwaith yn iawn, ac roedd cryn lawer ohono'n cael ei ddfetha. Fy ngwaith i yw agor y platiau. Mae tair merch yn cael eu hyfforddi gen i ar hyn o bryd, a bydd tair arall yn cael eu rhoi ar waith yr wythnos nesaf.'

Yna gofynnwyd iddi am fwy o fanylion am y gwaith a'r tâl:

'Rydym yn cael ein talu yn ôl y dasg ac yn cael 83 sent y tro. Gallwn i wneud tri thro mewn diwrnod ond caf fy nghadw'n brysur am ran o'r dydd yn dysgu merched newydd, felly dim ond tua dau dro rwy'n ei wneud. Ar gyfartaledd rydym yn gweithio wyth awr y diwrnod. Does dim un o'r merched yn gweithio'r nos. Mae pob tro yn rhedeg tua ...5,200 i 6,000 pwys. Mae'n rhaid i ni guro'r platiau a defnyddio dau hangyr i agor y platiau, ac mae'r gwaith yn drwm iawn. Dim ond canran fechan o'r menywod sy'n ymgeisio sy'n gallu gwneud y gwaith. Nid yw menywod America mor gryf â Chymraësau. Mae'r platiau'n 28 modfedd wrth 20 modfedd, ac wedi'u torri i'r maint cywir pan gânt eu rhoi ar y fainc o'n blaenau. Caiff wyth shiten eu gwasgu gyda'i gilydd, ac mae'n dipyn o gamp i'w gwahanu heb eu plygu'r ffordd anghywir.'

'Beth ddigwyddodd i'r dynion ifanc y cymeroch chi eu swyddi?'

'Cawson nhw waith arall, ac mae galw mawr am ddynion profiadol yn y felin. Roedd y dynion yn ddig wrtho i am wneud y gwaith, ond doedd dim gwahaniaeth gen i, gyhyd â'i fod e'n waith gonest. Dwi ddim yn bwriadu gweithio yn y busnes am amser hir, am flwyddyn mae'n debyg. Caiff merched eu rhoi ar waith i wneud yr holl agor cyn bo hir, cyn gynted ag y gallwn ni eu dysgu. Pan ddechreuais i weithio ymgasglodd cannoedd o'm cwmpas i'm gwyllo, gan ei bod yn reit anarferol i weld menyw mewn melin dunplat.'

Mae'r *Philadelphia Bulletin* ar Ebrill 15^{fed}, a ddyfynnir yn yr un erthygl, yn awgrymu bod menywod yn cael yr un tâl â'r dynion: 'Mae corfflu o fenywod yn gweithio mewn melin yn Pittsburg, yn trafod platiau fel y dônt oddi ar y rholiau. Cânt gyflogau dynion, ac ymddengys eu bod yn hoffi'r gwaith: ond i ennill cyflog da, dywedir bod gofyn i bob menyw drafod chwe thunnell o haearn y dydd - nid gyda chymorth peiriannau, ond trwy fôn braich.' Mae'r cofnod hwn yn awgrymu dirywiad hefyd: 'Mae cyflogi menywod yn y diwydiant metel bob amser wedi bod yn un o agweddau mwyaf gwarthus polisi diwydiannol Lloegr. Os caiff ei fabwysiadu yma byddwn yn talu pris uchel iawn am ein goruchafiaeth ym maes cynhyrchu. Ni allwn fforddio'r dirywiad moesol a chymdeithasol a ddaw o ddarostwng menywod.'

Caroline Fairclough

¹Jones, WD a Lewis, R L. 2007. Gender and transnationality among Welsh tinplate workers in Pittsburgh: The Hattie Williams Affair, 1895. *Labor History* 48 (2)

Mae angen gwirfoddolwyr ar gyfer prosiect y Rhyfel Byd Cyntaf



Beatrice Cope o Drelech gyda'i mab Eric, ychydig cyn iddo gael ei anfon i Ffrainc. Cafodd ei ladd ar ddiwrnod cyntaf Brwydr y Somme yn 18 oed.

Pan ddaw un prosiect i ben, bydd un arall yn dechrau ...

Mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer lansio ein prosiect i gofnodi bywydau menywod yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Rydym wedi ceisio am gyllid, wedi treialu rhai o'r dulliau y gobeithiwn eu defnyddio, ac yn bwriadu lansio'r prosiect yn iawn ym mis Mawrth, i redeg am flwyddyn.

Bwriedir lleoli, cofnodi a sganio ffotograffau, dogfennau, llythyron a memorabilia arall sy'n taflu goleuni ar fywydau menywod o ddechrau'r Rhyfel tan iddynt ennill y bleidlais (i fenywod dros 30) yn Nhachwedd 1918. Caiff y defnydd a gesglir ei gadw ar wefan benodedig, fydd ar gael i bawb, i wrthbwysu'r cannoedd o ffotograffau o filwyr sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli cyfnod y rhyfel yn hanes Cymru. Rydym yn chwilio am eitemau a fydd yn dangos menywod yn gweithio - mewn ffatrïoedd arfau, yn nyrsys, gweithwyr fferm, mewn busnesau - yn ogystal â chofnodion gweddwon, mamau, gwragedd a merched estroniaid, grwpiau sydd fel petaent wedi diflannu o'n hanes.

I gyflawni hyn mae angen help ein haelodau ledled Cymru. Cysylltwch â Jenny Sabine j.sabine367@btinternet.com neu Caroline Fairclough caroline_fairclough@yahoo.co.uk

Y Gynhadledd Flynyddol ym Mhrifysgol Bangor ar Hydref 3rd a'r 4th

Roedd y gynhadledd ym Mangor eleni yn dathlu 20 mlynedd o astudiaethau menywod yn y Brifysgol. Shan Ashton, Cyfarwyddwr y cwrs, roddodd y papur agoriadol 'Courses, Causes and Laughter ..' i ddathlu'r cwrs. Cafwyd cyfraniadau gan Betty Foster, Natalie Davies a Fflur Elin, cyn- neu fyfyrwyr cyfredol Bangor, ar Weddwod, Menywod mewn cyfnod o Ddirwasgiad, a Chynrychioliadau o Hoywon a Lesbiaid yn y Cyfryngau. Ymhlith siaradwyr eraill Bangor roedd Dinah Evans o'r Adran Hanes ar Nyrsys Cymreig, Wyn Thomas o'r Adran Gerdd ar Madame Lucie Barbier ac Annie Williams o'r cwrs Astudiaethau Menywod ar y Mudiad Heddwch yng ngogledd Cymru. Cyflwynodd Kate Sullivan ddarlun o'i gwaith fel Swyddog Prosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri yng ngogledd Cymru a chefnogwyd hi gan Vicky Perfect, cyn-weithwraig yn ffatri Courtaulds, y Fflint a Catrin Edwards, swyddog y de-ddwyrain. Siaradodd Sian Rhiannon Williams, yr unig siaradwraig o'r de, ar gwestiwn trafferthus athrawesau priod: Problem Aberdâr yn 1908.

Noddwyd y Gynhadledd gan Ganolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol. Diolch i Delyth Murphy, Pennaeth y Ganolfan, ac i Shan Robinson a'i thîm am drefnu digwyddiad dymunol dros ben.

Ffermwagedd yn sir Benfro

Neges oddi wrth Melissa Rees Herman

'Dwi'n cysylltu â chi gan fy mod yn gwneud ffilmiau'n annibynnol a'm bod yn gwneud prosiect ar sir Benfro ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Rwy'n ymchwilio i fywyd ffermwraig ddefaid leol, Gertrude Hooper, fu farw yng Nghaerfyrddin yn Rhagfyr 1985 yn 80 oed (ganwyd hi yng Nghasnewydd bach yn 1905). Rwy'n ceisio cael hyd i ffynonellau o wybodaeth am ffermwagedd yn yr ardal, i helpu creu darlun o'i bywyd. Rwy'n cael ar ddeall, er ei bod hi'n anghyffredin i fenyw ffermio ar ei phen ei hun yn y cyfnod hwn, nad oedd hynny'n beth cwbl di-sôn-amdano. E-bostiwch Melissa ar herman_melissa@hotmail.com mailto:herman_melissa@hotmail.com os gallwch helpu. Mae'r wybodaeth hon ar dudalen ymchwil y Wefan, <http://www.womensarchivewales.org/research.html>, hefyd.



Shan Ashton (yn sefyllg) gyda chyn-fyfyrwyr y cwrs Astudiaethau Menywod a'u tcacen ddathlu.

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan unrhyw aelod. Os gallwch gyflwyno eich cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at:

newsletter@womensarchivewales.org

Dyddiad copi ar gyfer y rhifyn nesaf yw Dydd Gwener, 20^{fed} Chwefror 2015

Os hoffech gopi print mawr o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad ebost uchod, neu ffoniwch 01873 890540 os gwelwch yn dda.

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens